| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **22 Hydref 2009** |
| **TEITL** | **Strategaeth Arbedion – Ailstrwythuro** |
| **PWRPAS** | **Cymeradwyo polisi tâl ar gyfer uwch reolwyr o ganlyniad i'r arbedion ailstrwythuro a wnaed ym mis Ebrill** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cymeradwyo polisi tâl ar gyfer uwch reolwyr** |
| **AWDUR** | **Y Prif Weithredwr** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Arweinydd y Cyngor<br>Y Cynghorydd Dyfed Edwards.<br>Uwch Arweinydd Portffolio - Adnoddau<br>Y Cynghorydd John R Jones** |

1.0 **CEFNDIR**

1.1 Pan gymeradwywyd yr ailstrwythuro diweddar gan y Cyngor llawn fel rhan o strategaeth arbedion eleni, comisiynwyd adolygiad annibynnol o gyflogau uwch reolwyr yn ogystal. Y rheswm am hyn oedd oherwydd bod y capasiti a gafodd ei leihau a gynhyrchodd yr arbedion wedi arwain at weddill yr uwch reolwyr yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau oedd wedi'u hailddosbarthu.

1.2 Mae'r dull hwn yn gyson â'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymdrin ag ailstrwythuro ar lefelau is yn y sefydliad. Mae'n cydnabod y bydd yn rhaid mynd i ychydig mwy o gostau fel rhan o becyn fydd yn cynhyrchu arbedion net.

2.0 **YR ARBEDION**

2.1 Yn ychwanegol at yr arbedion blynyddol o £785,000 yr adroddwyd amdanynt eisoes, mae'r ailstrwythuro corfforaethol wedi'i gwneud yn haws creu cyfleoedd ar gyfer arbedion pellach. Yn barod arbedir £50,000 y flwyddyn yn ychwanegol o ganlyniad i ailstrwythuro'r gefnogaeth weinyddol gorfforaethol. Yn ogystal, mae'r ailstrwythuro wedi hyrwyddo'r posibilrwydd o gael arbedion pellach hyd at £280,000 a chaiff hwn ei ystyried yn rhan o'r cwantwm arbedion ar gyfer y tair blynedd nesaf.

2.2 Felly, disgwyliaf y bydd cyfanswm arbedion o dros £1miliwn y flwyddyn yn gysylltiedig â'r ailstrwythuro yn y pen draw, ynghyd â'r posibilrwydd o arbedion pellach tu draw i'r tymor canolig.

2.3 Yr unig ddewis arall er mwyn gwneud y fath arbedion fyddai lleihau deilliannau yn y gwasanaethau rheng flaen.

## 3.0 YR ANGEN AM NEWID

3.1 Pan gyflwynais fy nghynigion ailstrwythuro i'r Cyngor, rhagrybuddiais aelodau y byddai sicrhau'r arbedion yn ddibynnol ar gydnabod y tâl canlyniadol oherwydd dyletswyddau ychwanegol fyddai gan rai uwch reolwyr. Yn ogystal, cynghorais yr aelodau y byddai'r gost gwrthbwyso yn annhebygol o fod yn sylweddol yng nghyd-destun y pecyn arbedion cyfan.

3.2 Os na fydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r mater hwn, mae posibilrwydd cryf y gall problemau yn ymwneud a chontractau godi, gan y bydd rhai unigolion yn teimlo bod y cyfrifoldebau ychwanegol gyfystyr â newid sylweddol yn amgylchiadau eu cyflogaeth. Bu uwch reolwyr yn gymwynasgar a rhesymol yn cymryd y cyfrifoldebau newydd cyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyflog. Maent wedi gweithredu yn ddidwyll ar y ddealltwriaeth y byddai'r cyflogwr yn eu trin yn deg.

3.3 Gan fod y swyddi erbyn hyn wedi'u gwerthuso'n annibynnol a sgoriau gwerthuso'r swyddi hynny wedi'u sefydlu, byddai cadw at y trefniadau tâl presennol yn peri sefyllfa ble byddai staff sy'n ferched ar y lefel hon yn derbyn tâl is na staff sy'n ddynion am swyddi o werth cyfartal. Yn amlwg, nid yw hon yn sefyllfa gynaliadwy i'r Cyngor a chan fod y Cyngor wedi mynd i'r afael â mater cyflog cyfartal ar gyfer yr holl staff eraill, rhaid iddo fynd i'r afael â hyn ar lefel uwch reolwyr yn ogystal.

3.4 Cyngor Gwynedd sydd â'r adnodd uwch reolwyr lleiaf yng ngogledd Cymru, o ran ei fesur mewn gwir niferoedd, neu gyfanswm y gost, neu gyfanswm cost y pen o'r boblogaeth. Os derbynnir y cynigion yn yr adroddiad hwn, bydd Cyngor Gwynedd yn dal i ddarparu uwch reolaeth am y gost leiaf yng ngogledd Cymru a bydd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer holl Gynghorau Cymru.

## 4.0 YR ADRODDIAD ANNIBYNNOL

4.1 Comisiynwyd Hay Group i ymgymryd â'r gwaith (amgaeir yr adroddiad) trwy ddefnyddio'r fethodoleg arfarnu swyddi a ddefnyddir fwyaf aml ledled y byd. Yr aelodau etholedig a fu'n gysylltiedig â fy nghyfarfodydd gyda Hay Group wrth i'r gwaith fynd rhagddo oedd y rhai a ganlyn:-

- Arweinydd y Cyngor
- Uwch Arweinydd Portffolio - Adnoddau
- Arweinydd Portffolio – Adnoddau Dynol

4.2 Yn syml, y bwriad gwreiddiol pan gomisiynwyd yr adroddiad hwn oedd adnabod cyfrifoldebau ychwanegol o fewn y strwythur cyflog presennol. Fodd bynnag, amlygodd trafodaethau gyda Hay Group y diffygion o beidio cael polisi tâl priodol ar gyfer uwch reolwyr. Felly, mae arfarnu swyddi heb ddatblygu polisi tâl yn ei sgil yn waith heb ei lwyr gyflawni. Fel yr adroddwyd yn adroddiad Hay Group:-

"*Mae sefydliadau sydd ag ymagwedd o ddatrys pethau'n gyflym yn hytrach na rhoi sylw i elfennau sylfaenol tâl a gwobrwyo, yn anorfod yn mynd i wynebu nifer o broblemau yn hwyr neu'n hwyrach. Mae ymagweddau byr dymor yn tueddu i arwain at unioni lefelau tâl yn anghywir a phroblemau pellach yn y dyfodol agos.*"

4.3 Y Cyngor sy'n penderfynu'r polisi tâl o ran y farchnad. Fy nghyngor i yw nad oes yn rhaid i'r Cyngor fod yn un sy'n talu'r mwyaf yn y farchnad (e.e. yn y chwartel uchaf, sy'n golygu mai dim ond 25% o sefydliadau sy'n talu mwy).

Y rheswm am hyn yw bod cronfa ddata Hay Group yn cynnwys cyflogau mewn sefydliadau yn yr ardaloedd trefol ble mae'r farchnad yn llawer mwy cyfnewidiol a rhaid cynnig cyflogau uwch er mwyn cadw a recriwtio'r ymgeiswyr gorau. Er ei bod yn wir fod rhai awdurdodau yng ngogledd Cymru yn talu uwch ben y canolrif ar gyfer rhai swyddi, nid yw hyn yn arfer cyffredinol. Credaf mai'r bwriad yn y pen draw fydd talu o gwmpas canolrif y farchnad, yn enwedig o ystyried fod gennym strwythur uwch reolwyr cymharol fychan. Er hynny, rwyf yn cydnabod y gallai symud tuag at y polisi tâl hwn ar gyfer yr holl swyddi ar unwaith fod yn anodd wrth ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

## 5.0 <u>**ARGYMHELLION**</u>

5.1 Felly, fy argymhelliad i yw cydnabod cyfrifoldebau ychwanegol rhai o ddeiliaid y swyddi ac ar yr un pryd cymryd y camau cyntaf tuag at sefydlu polisi tâl ar gyfer yr holl uwch reolwyr. Felly, mae fy argymhelliad yn cwmpasu opsiwn 2, enghraifft 2 yn yr adroddiad. Cymysgedd o rai swyddi gyda chyflogau o gwmpas y canolrif a rhai swyddi yn cael eu talu o gwmpas y chwartel isaf.

5.2 Mae fy argymhellion penodol fel a ganlyn:-

(A) Bod y naw pennaeth gwasanaeth yn y swyddi ar lefel 4 yn cael eu talu ar raddfa PG3 presennol, sydd ag uchafswm graddfa o £65,169. Felly, bydd tri phennaeth gwasanaeth yn derbyn dim cynnydd, bydd tri yn derbyn cynnydd o £3,429 a thri yn derbyn cynnydd o £6,858. Bydd y cynnydd yn adlewyrchu'r swyddi a dderbyniodd gyfrifoldebau ychwanegol.

(B) Bod y penaethiaid gwasanaeth ar swyddi lefel 2 yn cael eu talu ar raddfa gyflog newydd gydag uchafswm graddfa o £72,200 (h.y. y chwartel isaf). Bydd hyn yn golygu cynnydd o £3,602 i'r Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a £7,031 i'r Pennaeth Addysg. Rwyf yn cydnabod bod hyn yn gadael y Pennaeth Addysg i dderbyn cyflog oddeutu 20% yn is na phrifathro sy'n derbyn y cyflog uchaf ond ni fuasai hyd yn oed rhoi cyflog cyfartal â'r tâl canolrif yn unioni'r anghysondeb hwn.

(C) Unwaith eto, ar gyfer Cyfarwyddwyr Strategol ar swydd lefel 2, argymhellaf y dylent dderbyn tâl o gwmpas y chwartel isaf am y tro. Gan ystyried nad yw eu cyflog ond ychydig yn is na'r chwartel isaf ar hyn o bryd, nid wyf yn teimlo bod angen cynnydd cyflog ffiniol ar hyn o bryd a gellir ailymweld â'r sefyllfa mewn asesiad tâl yn y dyfodol.

Felly, nid wyf yn argymell cynnydd yn y tâl am y tro.

(D) O ran y Pennaeth Ymgynghoriaeth, argymhellaf y dylai'r Cyngor gadw'r tâl ar y lefel bresennol fel cydnabyddiaeth o'r baich ychwanegol o geisio dyfodol diogel ar gyfer yr holl wasanaeth, naill ai trwy gyfrwng cyd-fenter â'r sector preifat neu gydweithio'n gyfan gwbl gydag awdurdodau eraill.

5.3 Crynhoir fy argymhellion fel a ganlyn:-

| Lefel y Swydd | Rôl | Cyflog Presennol | Cyflog Arfaethedig | Mwyafrif Cost y Cyflog |
|---|---|---|---|---|
| 2 | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 83,121 | 83,121 | 0 |
| 3 | Pennaeth Gwasanaethau<br>Cymdeithasol<br>Pennaeth Addysg | 68,598<br>65,169 | 72,200<br>72,200 | 3,602<br>7,031 |
| 4 | Pennaeth Priffyrdd a<br>Bwrdeistrefol<br>Pennaeth Cyllid<br>Pennaeth Gofal Cwsmer<br>Pennaeth Rheoleiddio<br>Pennaeth Economi a<br>Chymuned<br>Pennaeth Darparu a<br>Hamdden<br>Pennaeth Adnoddau Dynol<br>Pennaeth Strategol a Gwella<br>Pennaeth Democratiaeth a<br>Chyfreithiol | 65,169<br><br>65,169<br>58,311<br>58,311<br>58,311<br><br>61,740<br>61,740<br>61,740<br><br>65,169 | 65,169<br><br>65,169<br>65,169<br>65,169<br>65,169<br><br>65,169<br>65,169<br>65,169<br><br>65,169 | 0<br><br>0<br>6,858<br>6,858<br>6,858<br><br>3,429<br>3,429<br>3,429<br><br>0 |
| 5 | Pennaeth Ymgynghoriaeth<br>Gwynedd | 58,311 | 58,311 | 0 |

5.4 **Argymhellaf ymhellach:**

- Bod deiliaid y swyddi hynny sy'n derbyn cynnydd yn cael eu cymathu hyd at uchafswm y raddfa newydd, gan eu bod yn barod ar uchafswm yr hen raddfeydd a byddai hyn yn gyson â'r dull yr ymdriniwyd â'r holl staff yn yr adolygiad tâl diweddar.

- Bod y cynnydd yn weithredol o 1 Ebrill 2009 er mwyn cyd-ddigwydd â gweithrediad y strwythur newydd.

- Bod cyfanswm costau cynnydd yn y cyflogau o £41,494, ynghyd â'r argostau cysylltiedig, yn cael eu hariannu o gyllideb wrth gefn yr awdurdod.

- Bod y Cyngor yn ymgymryd ag adolygiadau tâl achlysurol er mwyn sicrhau bod polisi tâl uwch reolwyr yn parhau'n gyfredol.